**Dyddiad:** Dydd Iau, 14 Medi 2000

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Teitl:** **STRATEGAETH TAI GENEDLAETHOL CYMRU: ADRODDIADAU'R GRWPIAU GORCHWYL**

**Diben**

1. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi adroddiadau terfynol grwpiau gorchwyl y strategaeth tai genedlaethol a sefydlwyd i ddatblygu Strategaeth Tai Genedlaethol ar gyfer Cymru. Anfonwyd copi wedi'i rwymo at holl Aelodau'r Cynulliad ar Fehefin 29ain. Gellir gweld yr adroddiadau hefyd ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol ar y fewnrwyd: http://assembly/aegis/Subject%20Index/Housing/Housing_Dept/National%20Strategy/Preamble.htm

**Crynodeb**

2. Sefydlodd Peter Law AC bedwar Grp Gorchwyl i ddatblygu cynigion i'w hystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol wrth ddatblygu'i agwedd strategol tuag at faterion tai yng Nghymru. Mae'r adroddiadau'n cofnodi argymhellion terfynol y grwpiau hyn.

**Amseriad**

3. Yng nghwrs y gwaith arferol.

**Cefndir**

4. Cyflwynwyd Fframwaith ar gyfer Strategaeth Tai Genedlaethol i Gymru i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod yr haf y llynedd, gan y Fforwm Ymgynghorol Cenedlaethol ar Dai yng Nghymru. Roedd y Fframwaith yn clustnodi'r materion allweddol ar gyfer tai yng Nghymru ac yn ystyried y dewisiadau eang ar gyfer mynd i'r afael â hwy, a'i fwriad oedd galluogi'r Cynulliad i roi cychwyn buan ar ddatblygu'i bolisïau tai ar gyfer Cymru.

5. Cyflwynwyd cynigion i sefydlu pedwar grp gorchwyl aml-asiantaeth â chadeiryddion annibynnol i ystyried y materion a datblygu cynigion polisi mwy manwl i'w hystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol. Cafodd y cynigion hyn, a'r Fframwaith, eu hystyried a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd, fel y'i gelwid ar y pryd, ym mis Gorffennaf 1999. Dyma gylch gorchwyl bras y Grwpiau Gorchwyl:

| | |
|---|---|
| Grp Gorchwyl 1: | Canfod a diwallu gofynion tai yng nghyd-destun seilwaith cymunedol a systemau cynllunio lleol. |
| Grp Gorchwyl 2: | Creu marchnadoedd tai preifat effeithlon a hygyrch gyda llety o safon dda. |
| Grp Gorchwyl 3: | Tai cymdeithasol cynaliadwy ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. |
| Grp Gorchwyl 4: | Sicrhau tai teilwng i bawb - ateb gofynion aelwydydd agored i niwed. |

6. Cafwyd dadl ar y Fframwaith a'r cynigion ar gyfer ei ddatblygu yng nghyfarfod llawn y Cynulliad ar Dachwedd 2il 1999.

7. Ystyriodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd adroddiadau interim y Grwpiau Gorchwyl ar Ionawr 27ain 2000, gan gyflwyno materion i gynorthwyo i roi ffurf i waith pellach y grwpiau.

8. Cyflwynodd y Grwpiau Gorchwyl eu hadroddiadau terfynol i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ym mis Mai. Croesawodd y Pwyllgor hwn yr adroddiadau a gofyn am baratoi'r papur hwn, gan dynnu sylw at waith y Grwpiau Gorchwyl a'r gwaith parhaus i ddatblygu strategaeth tai genedlaethol, er gwybodaeth y pwyllgorau pwnc eraill.

**I'w Hystyried – Adroddiadau'r Grwpiau Gorchwyl**

9. Daw aelodau'r Grwpiau Gorchwyl o ystod eang o sefydliadau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol, proffesiynol ac academaidd sy'n ymwneud â thai a gwasanaethau cysylltiedig (megis addysg, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, cynllunio ac ati). Cyfrannodd cyfanswm o 80 sefydliad mewn rhyw ffordd neu'i gilydd at waith y Grwpiau, gan ddangos yn eglur ymroddiad y Cynulliad i ddatblygu polisi mewn ffordd agored a chynhwysol yng Nghymru.

10. Rhyngddynt, mae adroddiadau'r Grwpiau Gorchwyl yn gwneud 195 o argymhellion. Mae'r rhain yn amrywio o ystod o gynigion polisi, i ffyrdd gwell o ddarparu gwasanaethau, i awgrymiadau ar gyfer cynnal ymchwil bellach neu gasglu data er mwyn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisi a darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Caiff llawer o'r materion polisi a ystyriwyd gan y Grwpiau Gorchwyl eu hadleisio ym Mhapur Gwyrdd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar Dai, *'Quality and Choice: A decent home for all'*, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill.

11. Trwy gydol y broses, rhoddwyd llawer o bwyslais ar yr angen i gydlynu polisïau ar draws holl

gyfrifoldebau'r Cynulliad a'i bartneriaid. Yn ogystal â mynd i'r afael â materion polisi tai, roedd gwaith y Grwpiau Gorchwyl yn cydnabod y gallai'r rhain wneud cyfraniad pwysig i bolisïau ehangach. Gall roi sail, yn arbennig, i ymdrechion y Cynulliad i ymdrin ag anfantais gymdeithasol a chynlluniau eraill ym maes iechyd ac mewn meysydd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol eraill.

12. Er bod yr adroddiadau'n canolbwyntio ar dai, maent yn gwneud argymhellion sy'n berthnasol i holl gyfrifoldebau polisi'r Cynulliad. Er enghraifft:

- yr angen am gysylltiadau clòs rhwng darparwyr tai ac **addysg**, gan gydnabod yr effaith y mae tai gwael yn ei chael ar gyrhaeddiad addysgol, a sut y gall tangyflawniad a thriwantiaeth gyfrannu at ddirywiad cymdogaeth. Gwneir nifer o argymhellion gan gynnwys annog ysgolion i gefnogi strategaethau cymunedol a chymryd rhan ynddynt; dyrannu tai cymdeithasol er mwyn osgoi lleoli llawer o deuluoedd a allai achosi problemau yn yr un lle, gan y gallai hyn arwain at lefelau anghymesur o drafferthion mewn ysgolion; a chynnwys cyngor a gwybodaeth ar sut i brynu/ rhentu cartref ac ar reoli cyllideb y cartref fel rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol a chynlluniau **hyfforddiant a chyflogaeth** presennol ar gyfer pobl ifanc ac oedolion.

- mae nifer o argymhellion yn ymdrin â'r berthynas rhwng darpariaeth tai a'r system **gynllunio**, gan gynnwys gwell cysylltiadau rhwng strategaethau tai a'r cynlluniau datblygu unedol, a phroses fwy ffurfiol i awdurdodau lleol gynhyrchu canllawiau cynllunio rhanbarthol.

- yr angen i integreiddio'r broses o gynllunio ar gyfer twf **economaidd** yn well â'r broses ar gyfer darparu tai ar lefel genedlaethol a lleol, a'r cyfraniad y gall datblygiadau tai ei wneud i amcanion **adfywio** economaidd a chymunedol ehangach, fel y rhai hynny yr anelir atynt o dan **Amcan 1**.

- y berthynas rhwng anghenion pobl ym meysydd tai, **iechyd, gofal a chymorth**, a'r angen i gynllunio a darparu gwasanaethau mewn ffordd gyfannol, ymatebol a hyblyg.

- yr angen i sicrhau cyfle **cyfartal** ym maes tai, gan gynnwys archwilio polisïau ac arferion presennol ledled Cymru a chymryd camau i ymdrin ag anghenion penodol y gymuned groenddu a lleiafrif ethnig a grwpiau eraill megis yr henoed neu'r anabl.

- effaith tai gwael ar **iechyd a lles** a goblygiadau hyn ar gyfer gwariant y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a gwasanaethau cymdeithasol a'r angen i gydlynu'r gwaith cynllunio'n well, ac i wneud mwy o weithio ac ariannu ar y cyd o dan ddarpariaethau Deddf Iechyd 1999 a rhoi mwy o gyfle i bobl ddigartref allu cael gafael ar ofal iechyd.

- y ffordd y mae tai yn cyfrannu at gwrdd ag amcanion **amgylcheddol**, gan gynnwys defnyddio tir wedi'i ddatblygu eisoes a defnyddio llai o ynni yn y cartref.

13. Mae mwyafrif yr argymhellion yn ymwneud â swyddogaethau a ddatganolwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac y gellid eu gweithredu trwy is-ddeddfwriaeth neu gamau gweinyddol ar lefel

genedlaethol neu leol. Mae'r gweddill yn ymwneud â swyddogaethau heb eu datganoli neu'n rhai y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i'w gweithredu. Byddai angen cydweithrediad Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer y rhai olaf hyn.

**Camau Nesaf / Gwaith ar y Gweill**

14. Mae swyddogion wrthi'n ystyried argymhellion y Grwpiau Gorchwyl ochr yn ochr â Phapur Gwyrdd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar Dai. Trafod polisi tai yn Lloegr y mae'r Papur Gwyrdd i raddau helaeth, ond ceir ynddo gynigion ar gyfer deddfwriaeth newydd a newidiadau i'r system Budd-daliadau Tai a fyddai'n effeithio ar Gymru. Mae Peter Law, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Lywodraeth Leol a Thai, wedi nodi y cynhelir ymarfer ymgynghori eang ar yr ymateb i argymhellion y Grwpiau Gorchwyl a'r cynigion yn y Papur Gwyrdd yn ystod yr hydref.

15. Bydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn ystyried dogfen ymgynghori ddrafft yn ei gyfarfod ar Fedi 13eg, a threfnwyd dadl arall yn y cyfarfod llawn ar Hydref 31ain.

**Cydymffurfio**

***Pwerau'r Cynulliad***

16. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol amrywiaeth eang o bwerau statudol eilaidd i ddatblygu a gweithredu polisi tai yng Nghymru. Caiff y rhain eu hystyried ochr yn ochr â phob un o'r cynigion polisi. Er bod ei bwerau mewn perthynas â'r sector tai preifat yn fwy cyfyng, gall hyrwyddo ffyrdd gwell a gwahanol o weithredu, er enghraifft trwy drafod â benthycwyr ac adeiladwyr tai. Ceir crynodeb o'r prif bwerau ym maes tai yn Atodiad B y ddogfen Fframwaith (sydd ar gael ar wefan y Cynulliad o dan Policy and Information/Housing/Housing the National Assembly). Yn yr un modd, mae hawl gan y Cynulliad Cenedlaethol i wneud cyflwyniadau i Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn achos cynigion sydd angen deddfwriaeth sylfaenol, neu mewn perthynas â swyddogaethau heb eu datganoli sy'n effeithio ar Gymru.

***Goblygiadau Ariannol***

17. Wrth ddatblygu strategaeth tai genedlaethol, asesir goblygiadau ariannol pob opsiwn polisi, a chlustnodir y blaenoriaethau mewn perthynas â'r adnoddau sydd ar gael a'r dyddiadau gweithredu arfaethedig.

18. Ymgynghorwyd â'r Is-adran Cynllunio Ariannol, Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad a'r Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol ac maent yn fodlon â'r agweddau ariannol a'r agweddau'n ymwneud â chydymffurfio.

**Themâu Trawsbynciol**

19. Datblygwyd y ‘Fframwaith ar gyfer Strategaeth Tai Genedlaethol i Gymru’ ar y cyd ag amrywiaeth eang o sefydliadau allanol ac Is-adrannau’r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn gofalu y rhoddir ystyriaeth briodol i faterion, polisïau a chynlluniau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach. Fel a nodwyd uchod, mae gwaith y Grwpiau Gorchwyl wedi datblygu o’r dull gwaith hwnnw.

**Camau i’w cymryd gan y Pwyllgor**

20. Gwahoddir y Pwyllgor i wneud y canlynol:

- nodi’r gwaith a wnaed gan y Grwpiau Gorchwyl ar y Strategaeth Tai yn unol â’r hyn a nodwyd yn yr adroddiadau; a

- nodi bwriad Ysgrifennydd y Cynulliad dros Lywodraeth Leol a Thai i ymgynghori ar ei ymateb i waith y Grwpiau Gorchwyl.

Cangen Strategaeth Genedlaethol
Is-adran Tai ac Adfywio Cymunedol

Gorffennaf 2000